Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

# Fforwm Cyllideb Ysgolion

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 17/01/2023 |
| **Amser** | 10.00 tan 11.30 |
| **Lleoliad** | Microsoft Teams |
| **Aelodau** | Claire Armistead (CA - Rhyl High (Cadeirydd), Mark Hatch (MH) – Dinas Brân, Helen Vernon (HV) – Bodnant, Colette Owen (CO) – Esgobaeth, Neil Foley (NF) – Ysgol Uwchradd Prestatyn, Nicola Griffiths (NG) – Pendref, Rona Jones (RJ) – Emmanuel, Rhona O'Neill (RO) – Tir Morfa, Glen Williams – Ysgol Uwchradd Dinbych (AW), Dafydd Davies (DD) – Ysgol Twm o'r Nant, Shannon Gage (SG) – Llywodraethwr Cynradd, Lindsey Davenport (LD) Is-Gadeirydd – Cynrychiolydd Llywodraethwyr Ysgolion Uwchradd, Leah Crimes (LC) – Santes Ffraid, y Cynghorydd Gill German (GG) – Aelod Arweiniol Addysg, Teleri Llwyd – Borthyn, Bethan Fell (BF) - Gwernant, Rona Jones (RJ) - Emmanuel, Geraint Davies (GD) - Pennaeth Addysg, Geraint Parry (GP) - Brynhyfryd |
| **Rhai nad ydynt yn aelodau** | Craig Joyce (CAJ) - Rheolwr Cyllido Ysgolion, Cathy Howatson (Nodiadau), Chris Speed (CS) - Rheolwr Cyllid Sicrwydd, Steve Gadd (SGADD) - Pennaeth Cyllid |
| **Ymddiheuriadau** | Dim |

## 1. Croeso

Croesawodd Claire Armistead (Cadeirydd) y grŵp. Croesawodd y grŵp y penaethiaid newydd – Glen Williams, Ysgol Uwchradd Dinbych, a Sian Alwen, Ysgol Glan Clwyd.

**Roedd 19 aelod yn bresennol yn y cyfarfod i sicrhau cworwm.**

## 2. Materion sy'n codi a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf 10/2022

Partneriaeth Hamdden Sir Ddinbych - dywedodd y Penaethiaid nad yw Jamie Groves wedi cysylltu â nhw i gwrdd ynghylch safleoedd LPA. **CAM GWEITHREDU - CAJ i gysylltu ag o.**
Dim materion yn codi. Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf gan y fforwm.

## 3. Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gyllideb 2023/24 – Steve Gadd

Rydym wedi cael gwybodaeth y bydd ein setliad yn well na'r disgwyl gan LIC.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

Rhoddwyd arian ychwanegol i awdurdodau lleol ac rydym wedi cael cynnydd o 8.2%.

Roedd CSDd yn rhagweld diffyg o £4.8 miliwn yn flaenorol ac roeddem am ddefnyddio arian i bontio'r bwlch, ond nid oes angen hwn bellach. Ni fydd unrhyw dargedau arbed pellach ar gyfer eleni.

Bydd cynnydd yn nhreth y Cyngor yn parhau yn 3.8%.

Bydd bob aelod o'r Cabinet yn cael adroddiad cyllideb ar gyfer cyfarfod y Cabinet heddiw.

Ysgolion - bydd arbedion effeithlonrwydd o 1% yn parhau i gael eu cynnwys yn y cyllidebau.

Costau Ynni - mae'n debygol y bydd cynllun cymorth ariannol ar gyfer defnyddwyr annomestig. Bydd CSDd yn edrych ar hyn yn fanwl pan fydd mwy o fanylion yn cael eu rhyddhau. Gellir darparu cymorth ariannol yn ystod y flwyddyn ar y pwynt hwn.

Bydd codiad cyflog posib yn cael eu monitro yn ystod y flwyddyn. Ni wyddir y canlyniad oherwydd yr holl streiciau sy'n digwydd ar hyn o bryd.

## 4. Cynlluniau Cyfun

CH - Ar hyn o bryd rydym yn edrych ar orwariant o £174,000 erbyn diwedd Mawrth. Mae hyn hyd at ac yn cynnwys mis Rhagfyr. Mae gweddill y flwyddyn yn seiliedig ar fis Ionawr - Mawrth yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae tebygolrwydd uchel y bydd y gorwariant yn cynyddu gan fod nifer o achosion o coronavirus ar hyn o bryd a disgwylir i salwch fod yn uchel.

## 5. Meini prawf Cynlluniau Cyllid Cyfun a Chostau Dangosol

Mae'r fforwm yn ymwybodol ein bod wedi gwneud newidiadau i'r cynllun cyfun ychydig cyn Covid.

Trafodwyd y pwyntiau cadarnhaol a negyddol ynglŷn â gorfod talu am unrhyw orwariant i'r cynllun ar ddiwedd y flwyddyn.

Gofynnodd CAJ i'r fforwm os hoffent gynyddu'r pot cyfan a fyddai yna'n gostwng y siawns o ysgolion yn gorfod talu mwy ar ddiwedd y flwyddyn a chynyddu'r posibilrwydd o gael credyd.

Byddai'n well gan GP gael credyd ar ddiwedd y flwyddyn na gorfod talu. Cytunodd CA.

**CAM GWEITHREDU - Trafodaeth i'w chynnal yng nghyfarfod nesaf y fforwm ynglŷn â chynyddu'r pot cyfan ar gyfer 2023/24.**

## 6. Rheolau caffael gwerth isel i ysgolion

Dosbarthodd CAJ bapur roedd wedi ei baratoi gyda'r grŵp. Mae angen cytundeb gan y fforwm i gytuno ar y cynnydd mewn gwerth ar gyfer un dyfynbris. Mae'r papur yn awgrymu cynyddu o'r £10,000 presennol i £20,000 ar gyfer un dyfynbris.

**CAM GWEITHREDU – Roedd pawb yn cytuno gyda'r lefelau costau newydd.**

## 7. Gwasanaethau Cymorth a Masnach

Mae bob ysgol nawr wedi cytuno os ydynt eisiau/ddim eisiau'r gwasanaeth ar gyfer y 12 mis nesaf. Bydd rhaid talu amdanynt yn gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd. Dim newidiadau mawr i'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth a anfonwyd.

## 8. Ysgolion mewn Trafferthion Ariannol a Balansau Ysgolion

Casglwyd balansau 3 mlynedd ysgolion. Bu i ysgolion gario £12.5 miliwn i 2022/23, ond rhagwelir y bydd hyn nawr yn gostwng i tua £6 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, gan ostwng eto i sero erbyn diwedd 2023/24 ac i ddiffyg (£6 miliwn) erbyn diwedd 2024/25.

Mae ysgolion hefyd wedi rhoi gwybodaeth ar falansau dros ben os ydynt yn cario drosodd 5%. Cyfarfod mewnol i'w gynnal gyda Steve Gadd, Geraint Davies, Craig Joyce, Cathy Howatson.

Nododd CA fod cwestiynau wedi eu codi yn ystod arolwg diweddar Ysgol Uwchradd y Rhyl ynglŷn â'r balansau dros ben roedd yr ysgol yn eu cario.

## 9. Diweddariad TGCh - Craig Joyce

Bu i CAJ a CH gyfarfod gyda TGCh i drafod eu CLG. Cytunwyd y bydd y CLG yn unol â phob un arall a bydd yn cael ei anfon i'r ysgolion tua mis Hydref yn 2023.

## 10. Materion yn codi gan y clystyrau

Dim

## 11. Unrhyw Fater Arall

Gofynnodd RJ sut fydd y grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei gyfrifo o ran prydau ysgol am ddim nawr fod bob disgybl yn gymwys i gael pryd am ddim?

GS - ni chafwyd unrhyw ddiweddariad hyd yma ond mae wedi ei godi. Bydd yn cael ei ychwanegu at raglen y cyfarfod nesaf.

**Daeth y cyfarfod i ben am 10.52am**

**Dyddiad y cyfarfod nesaf – 18 Ebrill 2023 ar Microsoft Teams.**